# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 4**

PWERAU YMCHWILIO ACC

**PENNOD 2**

PWERAU I WNEUD GWYBODAETH A DOGFENNAU YN OFYNNOL

### 87 Hysbysiadau trydydd parti

(1) Caiff ACC ddyroddi hysbysiad ("hysbysiad trydydd parti") sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth neu gyflwyno dogfen—

(a) os oes angen yr wybodaeth neu'r ddogfen ar ACC at ddiben gwirio sefyllfa dreth person arall ("y trethdalwr") y gŵyr ACC pwy ydyw,

(b) os yw'n rhesymol ei gwneud yn ofynnol i'r person ddarparu'r wybodaeth neu gyflwyno'r ddogfen, ac

(c) os nad oes unrhyw beth yn adrannau 97 i 102 yn rhwystro ACC rhag ei gwneud yn ofynnol i'r person ddarparu'r wybodaeth neu gyflwyno'r ddogfen.

(2) Ond ni chaiff ACC ddyroddi hysbysiad trydydd parti heb—

(a) cytundeb y trethdalwr, neu

(b) cymeradwyaeth y tribiwnlys.

(3) O ran y trethdalwr y mae hysbysiad trydydd parti yn ymwneud ag ef—

(a) rhaid iddo gael ei enwi yn yr hysbysiad, a

(b) rhaid i ACC ddyroddi copi o'r hysbysiad iddo.

(4) Ond pan fo'n cymeradwyo hysbysiad trydydd parti, caiff y tribiwnlys ddatgymhwyso un o ofynion is-adran (3), neu'r ddau ohonynt, os yw'n fodlon bod gan ACC sail dros

gredu y gallai enwi'r trethdalwr neu, yn ôl y digwydd, ddyroddi copi o'r hysbysiad i'r trethdalwr, niweidio'r gwaith o asesu neu gasglu trethi datganoledig yn ddifrifol.